LC1390

wpe1.jpg (16499 bytes)

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Rheoliadau Plant (Llety Diogel) (Diwygio) (Cymru) 2006

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Plant (Llety Diogel) 1991 drwy ddirymu rheoliad 3 o'r Rheoliadau hynny i'r graddau y mae'n gymwys o ran Cymru. Roedd y rheoliad hwnnw'n darparu na ddylid defnyddio llety mewn cartref plant fel llety diogel oni bai bod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi cymeradwyo y dylid ei ddefnyddio at y diben hwnnw.

## Rheol Sefydlog 11.7

Nodwyd y pwyntiau canlynol o dan Reol Sefydlog 11.7

Cafodd pwerau amhriodol eu henwi. Mae adran 25(2) o Ddeddf Plant 1989 ("y Ddeddf") yn delio â'r cyfnod y gellir cadw plant yn hytrach na'r lle y'u cedwir. Nid yw adran 104(2A) yn cynnwys pwer. Mae paragraff 7(4) o Atodlen 5 i'r Ddeddf yn delio â throseddau ac nid yw'n cynnwys pwer. Mae paragraff 10(2) o Atodlen 6 i'r Ddeddf yn delio â'r broses o adolygu achosion. [Rheol Sefydlog 11.7 (v)]

Mae'r rhain yn addas i'w cywiro drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau.

**David Melding AC**

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**7 Tachwedd 2006**